**ADRODDIAD I'R CABINET**
1/07/2014

**Aelod Cabinet:** **Paul Thomas**

**Pwnc:** **Adroddiad Blynyddol y Panel Rhiant Corfforaethol**

**Swyddog cyswllt: Rhoslyn Prys, Rheolwr Polisi a Gwireddu, Plant a Phobl Ifanc 2708**

---

**Y penderfyniad a geisir**

Mae'r adroddiad yn amlinellu gwaith y Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac yn cynnig rhaglen waith ar gyfer datblygu rhaglen waith a strategaeth tair blynedd

---

**Barn yr aelod lleol**

Nid yw'n fater lleol

---

**Cyflwyniad**

Adroddiad ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol yn y cyfnod ers Mai 2013. Mae'n ddisgwyliedig fod y Panel yn cadw trosolwg o ansawdd y gwasanaethau cefnogol mae'r plant mewn gofal yn ei dderbyn gan adrannau'r Cyngor a phartneriaid y Cyngor. Mae'r Panel yn cynrychioli'r holl aelodau a staff y Cyngor yn y gwaith o sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer plant mewn gofal.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Mae angen datblygu ymhellach gwaith y Panel er mwyn sicrhau ei fod yn ymgyrraedd a'r ymarfer gorau. Mae tystiolaeth ar gael o feysydd lle mae Cynghorau eraill yng Nghymru, Lloegr a'r Alban yn darparu gwell gwasanaethau i blant mewn gofal. Rhaid symud i gael strwythur cadarn yn ei le i sicrhau gwasanaethau o'r ansawdd gorau.

**Ystyriaethau perthnasol**

Mae angen datblygu ymwybyddiaeth uwch ymhlith aelodau a staff o anghenion plant mewn gofal a'r hyn fedr y Cyngor a'i bartneriaid ei wneud i'w cefnogi. Mae gan y Panel y cyfle i hyrwyddo gwaith yr adrannau a'r partneriaid i gynorthwyo plant mewn gofal i gychwyn bywydau llwyddiannus a chyfoethog.

Wrth bwyso a mesur yr hyn sydd yn y rhaglen waith, mae'n briodol ystyried y materion capasiti sydd yn codi ohonynt. Mae'r rhaglen waith wedi ei drafod a'i gytuno yn fewnol cyn ei gyflwyno i'r Cabinet ac mae'r adnoddau angenrheidiol i wireddu'r rhaglen waith yn eu lle.

**Camau nesaf ac amserlen**

Mae'r angen i ddatblygu strategaeth ar gyfer gwaith y Panel eisoes wedi ei adnabod. Mae peth gwaith wedi ei gyflawni ar hyn ond bydd angen gwneud gwaith pellach ar waith cefndirol ymarfer da ar draws gwledydd Prydain, a gwaith gyda phlant mewn gofal. Pwrpas y gwaith gyda phlant a phobl ifanc mewn gofal fydd i gasglu eu barn ar yr hyn gall y Cyngor ei wneud i'w cynorthwyo'n fwy effeithiol ac i edrych ar ffyrdd o gynnal y ddeialog rhyngthyn nhw â'r Panel. Bydd y Panel yn ystyried cryfder a gwendid y sefyllfa bresennol ac yn llunio rhaglen weithredu i'w gynnwys o fewn strategaeth newydd. Mae'n fwriad cwblhau'r gwaith erbyn diwedd Hydref 2014.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

"Mae'r cyfrifoldeb o weithredu fel rhiant corfforaethol yn un pwysig y mae'r Cyngor yn ei ysgwyddo. Mae'n bwysig felly bod y Cyngor, fel unrhyw rhiant, yn asesu effeithlonrwydd ei drefniadau ar gyfer ysgwyddo'r cyfrifoldeb hynny ac yn chwilio yn gyson am ffyrdd i ddysgu o ymarfer da ac ymgysylltu gyda'r plant a'r bobl ifainc eu hunain er mwyn gwella ar y modd y mae'n gwneud hynny. Rwy'n cymeradwyo'r adroddiad a'r rhaglen waith sydd ynghlwm iddo."

**Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb"

**Y Pennaeth Cyllid:**

"Nodaf fod yr ail baragraff ar ail dudalen yr adroddiad hwn, o dan "ystyriaethau perthnasol", yn nodi fod adnoddau angenrheidiol yn eu lle i wireddu'r rhaglen waith. Felly, does gen i ddim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

---

**Atodiadau**

1. Adroddiad Blynyddol Panel Rhiant Corfforaethol Gwynedd 2013-14
2. Rhaglen Waith y Panel Rhiant Corfforaethol 2014-5